

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 6 Rhagfyr 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 13 RHAGFYR 2018** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU ETHOLEDIG AM
9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 24)

Derbyn -

(a) Cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2018 (copi wedi'i amgáu), a

(b) cofnodion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2018 (copi wedi'i amgáu).

10.05 a.m. – 10.15 a.m.

5 COMISIYNU GOFAL PLANT ADDYSG GYNNAR A DECHRAU'N DEG
(Tudalennau 25 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Strategaeth a Datblygu (copi wedi'i amgáu) er mwyn ceisio barn y Pwyllgor Craffu ar y penderfyniad dros ail gomisiynu elfennau gofal plant y Cynllun Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg trwy brosesau ffurfiol paralel.

10.15 a.m. – 11.00 a.m.

~~~ EGWYL 11.00 a.m - 11.15 a.m ~~~

**6 PERFFORMIAD AC EFFEITHIOLRWYDD CYDYMFFURFEDD
CYNLLUNIO** (Tudalennau 29 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Datblygu a'r Swyddog Cynllunio (copi wedi'i amgáu), sydd yn darparu gwybodaeth am effeithiolrwydd a pherfformiad y swyddogaeth cydymffurfedd cynllunio.

11.15 a.m. – 12.00 p.m.

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 41 - 66)

Rhoi ystyriaeth i adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12.00 p.m. – 12.15 p.m.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

12.15 p.m. – 12.30 p.m.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Dim.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Graham Timms (Is-
Gadeirydd)

Brian Blakeley
Meirick Davies
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Cheryl Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)

Kathleen Jones
David Lloyd

Neil Roberts

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 11 Hydref 2018 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Rachel Flynn, Merfyn Parry, Anton Sampson, Glenn Swingler, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a/ac Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol dros Dai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd yn bresennol ar gais y Pwyllgor

Llofnodwyr Galw i mewn yn bresennol:

Y Cynghorwyr Peter Scott, Rhys Thomas, Alan James ac Arwel Roberts

Arsylwyr:

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Christine Marston, Martyn Holland, Mabon ap Gwynfor a Hugh Irving.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Parth Cyhoeddus ac Economaidd (GB), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Swyddog Arweiniol, Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai (DL), Cydlynnydd Craffu (RE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies, Tina Jones a/ac Andrew Thomas

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

3 ADOLYGIAD O BENDERFYNIAD Y CABINET YNGLŶN Â DARPARU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac eglurodd y galwyd y cyfarfod i ystyried cais am alw penderfyniad diweddar y Cabinet i mewn, sef cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyn cynllunio, a cheisiadau cynllunio llawn dilynol, ar gyfer

darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl a theithiol ar safle Green-gates Farm East, ar gyrion Llanelwy.

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad cyfrinachol ac atodiadau y Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd (a ddsbarthwyd ymlaen llaw), oedd yn cyflwyno'r cais a wnaed gan bum cynghorydd nad ydynt yn rhan o'r Cabinet, dan Reolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, i'r Pwyllgor Craffu adolygu'r penderfyniad wnaeth y Cabinet ar 25 Medi mewn perthynas â safleoedd arfaethedig ar gyfer darpariaeth i sipsiwn a theithwyr yn y sir yn y dyfodol. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor y bodlonwyd y meini prawf o ran galw penderfyniad y Cabinet i mewn, ac mai sail y cais am alw i mewn oedd "na ystyriwyd gwell safle". Roedd y cais am alw i mewn yn cynnwys enghraifft benodol o "well safle". Fel prif lofnodwr y cais am alw penderfyniad y Cabinet i mewn, gwahoddwyd y Cynghorydd Peter Scott i annerch y Pwyllgor er mwyn egluro'r sail ar gyfer galw'r penderfyniad i mewn ac i gynnig gwybodaeth gefndir ychwanegol mewn perthynas â'r cais.

Yn ystod ei gyflwyniad, hysbysodd y Cynghorydd Scott y Pwyllgor ei fod wedi mynychu cyfarfod y Cabinet ar 25 Medi 2018 yn rhinwedd ei rôl fel aelod lleol ar gyfer yr ardal lle bwriedir lleoli'r safleoedd arfaethedig. Eglurodd ei fod wedi mynegi ei farn yn y cyfarfod gan nodi pam nad oedd safle Green-gates Farm East yn briodol i'w ddatblygu fel safle preswyl na theithiol ar gyfer sipsiwn a theithwyr. Eglurodd hefyd pam ei fod yn credu na chafodd safleoedd eraill, oedd yn ei farn ef yn well safleoedd, ystyriaeth ddyledus gan y Cabinet cyn cyrraedd eu penderfyniad, a dyma ei reswm dros gychwyn cais galw i mewn i gael y Pwyllgor Craffu i adolygu penderfyniad y Cabinet.

Wrth ymateb i gyflwyniad y Cynghorydd Scott, nododd yr Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd fod y broses i benderfynu a oedd angen yn Sir Ddinbych am safle preswyl, safle teithiol neu'r ddau, wedi bod yn mynd rhagddi ers nifer o flynyddoedd. Roedd gofyniad cyfreithiol ar Sir Ddinbych, fel pob awdurdod lleol arall, i gynnal asesiad o anghenion i bennu a oedd yna angen o fewn y sir am safleoedd o'r fath. Os byddai angen yn cael ei ganfod, byddai rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr awdurdod lleol i ddarparu safleoedd o'r fath o fewn ei ffiniau daearyddol. Eglurodd bod cyllid grant ar gael gan Lywodraeth Cymru (LIC) i ddatblygu safleoedd preswyl a theithiol, cyn belled â bod yr awdurdodau lleol yn canfod safleoedd a ffefrir, yn cynnal ymgynghoriad cyn cynllunio arnynt ac yn cael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y datblygiadau mewn pryd i gyflwyno ceisiadau am y cyllid grant cyn y dyddiad cau, sef 28 Chwefror 2019. Os byddai hyn i gyd yn cael ei gyflawni, y cynnig fyddai datblygu'r safle preswyl yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 a'r safle teithiol yn ystod 2020-21. Roedd safle Green-gates Farm East eisoes wedi'i nodi a'i gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ebrill 2018 fel y safle a ffefrir ar gyfer datblygu safle preswyl. Gan fod canllawiau LIC ar y 'Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' yn nodi'n benodol na ddylai safleoedd preswyl a theithiol fod wedi'i cyd-leoli, gwnaed cryn ymdrech i geisio canfod a sicrhau safle ar wahân ar hyd coridor yr A55 i'w ddatblygu fel safle 'teithiol'. Fodd bynnag, oherwydd mai rhan fer o'r A55 sy'n teithio trwy Sir Ddinbych a'r ffaith bod rhaid i'r safleoedd fod o fewn 3 milltir i ysgol gynradd, ychydig iawn o ddarpar leoliadau addas oedd yna. Cafodd manylion y lleoliadau eraill a ystyriwyd eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 25 Medi 2018, ac atodwyd hwy i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod. Pan ddaeth yn amlwg y byddai'r

Cyngor yn cael trafferth canfod lleoliad addas ar wahân i leoliad Green-gates Farm East i'w ddatblygu fel safle teithiol, ysgrifennodd yr Aelod Arweiniol at Weinidog LIC â chyfrifoldeb am Gydraddoldeb a chydlynu materion sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr, gan egluro'r heriau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu ac yn gofyn i'r Llywodraeth gymryd ymagwedd hyblyg yn yr achos hwn at gyd-leoli'r ddau safle, cyn belled â bod sgrinio priodol yn cael ei ddarparu rhyngddynt a bod y ddau wedi'u lleoli gryn bellter oddi wrth ei gilydd. Ymatebodd y Gweinidog yn ffafriol i'r cais hwn ar yr amod bod y Cyngor yn darparu sgrinio rhesymol rhwng y ddau safle, yn rhannu'r cynlluniau â swyddogion LIC ac yn caniatáu cyfnod o ddeuddeng mis i drigolion y safle preswyl setlo cyn i'r safle teithiol gychwyn cael ei ddefnyddio. Ar ôl derbyn y sicrwydd hwn, roedd y Cabinet felly wedi cymeradwyo datblygu'r safle teithiol hefyd ar ran o safle Green-gates Farm East.

Archwiliwyd cyfanswm o dros 40 o safleoedd i gychwyn. Ar ôl ystyriaeth fanwl, cyfyngwyd nifer y safleoedd posib i 22, ac ar ôl ystyriaeth bellach, gostyngwyd y nifer hwn eto i 5. Diystyriwyd safleoedd am amryw o resymau, e.e. pellter oddi wrth y rhwydwaith priffyrdd, perchenogaeth tir a'r costau cysylltiedig â phrynu'r tir neu gostau ac amser prynu tir drwy bryniant gorfodol, costau clirio/ adfer y safle, lefelau sŵn, perygl llifogydd, agosrwydd at yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol leol ac ati. Cyflwynwyd rhestr fer o 5 o safleoedd posib i'r Cabinet ym mis Ebrill 2018. Yn dilyn trafodaeth a thrafod telerau pellach rhwng swyddogion a thrydydd parti, datganwyd nad oedd un o'r safleoedd hyn yn hyfyw, a arweiniodd at gyflwyno 4 safle posib i'r Cabinet eu hystyried ar 25 Medi. Defnyddiwyd sleidiau PowerPoint i roi trosolwg i'r Aelodau o'r safleoedd posib oedd ar y rhestr fer ar gyfer darparu safle teithiol a gyflwynwyd i'r Cabinet. Yn ystod y cyflwyniad, cafwyd crynodeb gan yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion ar fanteision ac anfanteision pob safle.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd a Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a Stoc Tai:

- gadarnhau na chyflwynwyd unrhyw safleoedd pan alwyd am dir i'w gyflwyno fel safleoedd posib ar gyfer safle sipsiwn a theithwyr, ac mae'n debyg mai'r rheswm am hynny oedd bod tiffeddianwyr yn amharod i awgrymu gwerthu eu tir er y diben hwn;
- nodi, er bod canllawiau LIC mewn perthynas â'r cyllid grant yn argymhell peidio â chyd-leoli'r safle preswyl a'r safle teithiol, bod LIC a'r teulu fyddai'n byw ar y safle preswyl yn cydnabod bod lleoliadau addas ar hyd coridor yr A55 yn hynod brin.
Felly, ar y sail y byddai pellter digonol yn sicrhau bod y ddau safle wedi'u lleoli ar wahân ac y byddai sgrinio priodol yn cael ei ddarparu, roedd y ddwy ochr yn fodlon derbyn y cyfaddawd;
- nodi manylion y sail gyfreithiol oedd yn peri bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu safle preswyl a theithiol i sipsiwn a theithwyr, gan nodi y byddai bodolaeth safle teithiol i sipsiwn a theithwyr yn helpu'r Cyngor yn y dyfodol wrth ddelio â gwrsylloedd anghyfreithlon;
- darparu manylion y deddfau deddfwriaethol sy'n rhoi pŵer i'r awdurdodau lleol a'r Heddlu orfodi sipsiwn a theithwyr i symud ymlaen o wersylloedd anghyfreithlon;

- cadarnhau bod y teulu y byddai datblygu'r safle preswyl yn diwallu eu hanghenion yn drigolion Sir Ddinbych, a'u bod yn cadarnhau y byddai'r safle'n diwallu eu hanghenion a'u bod yn fodlon symud yno ar ôl iddo gael ei ddatblygu;
- nodi y byddai asesiadau'n cael eu cynnal, fel rhan o'r broses o wneud cais cynllunio, o effaith y safleoedd arfaethedig ar rwydwaith priffyrdd, cymuned, parc busnes ac ati yr ardal, yn ogystal ag ystyriaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio;
- nodi y byddai ystyriaeth yn cael ei roi wrth ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer y safleoedd, i ddarparu manau pasio priodol ar y lôn a ddefnyddir i fynd at y safle, er mwyn galluogi cerbydau sy'n tynnu carafanau i basio traffig sy'n dod i'w hwynebu;
- rhoi arwydd o'r costau cysylltiedig â datblygu'r ddau safle er diben darparu 6 llain breswyl a 5 llain deithiol.
Pennwyd nifer y lleiniau preswyl yn ôl yr asesiad o anghenion a gynhaliwyd, ac arweiniwyd nifer y lleiniau teithiol gan nifer cyfartalog y carafanau oedd yn rhan o wersylloedd anghyfreithlon yn y sir yn y blynyddoedd diweddar. Gallai asesiad o anghenion yn y dyfodol nodi angen am ddarpariaeth bellach, ond roedd y Cyngor yn fodlon y byddai nifer y lleiniau ar y ddau safle'n bodloni'r anghenion dynodedig ar sail yr asesiad o anghenion diweddaraf;
- nodi y byddai'r safle'n cael ei reoli, gyda system gofrestru ar waith, er ei bod yn annhebygol y byddai staff ar y safle 24 awr y dydd;
- cadarnhau nad yw safle Green-gates Farm East wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol er dibenion cymunedol na phreswyl.
Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried y cais ar sail yr angen dynodedig, yn debyg i gais a wneir am annedd amaethyddol y tu allan i ardal anheddiad preswyl;
- cadarnhau yr ymgynghorwyd ag awdurdodau lleol cyfagos mewn perthynas â threfniadau rheoli'r safle, ac yr ymgynghorwyd â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â'r lleoliadau arfaethedig.
Ni chodwyd unrhyw broblemau na phryderon gan unrhyw un o'r awdurdodau cyhoeddus yr ymgynghorwyd â hwy;
- nodi, os canfuwyd angen o fewn y sir, y byddai gofyniad cyfreithiol ar Sir Ddinbych i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd o fewn ei ffiniau daearyddol, hyd yn oed os byddai gan awdurdodau cyfagos ddarpariaeth safle sipsiwn a theithwyr o fewn pellter teithio rhesymol i Sir Ddinbych;
- cadarnhau mai'r safle preswyl fyddai'r cyntaf i gael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad o anghenion a gynhaliwyd, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio.
Byddai trigolion y safle hwnnw'n cael deuddeng mis i setlo cyn datblygu'r safle teithiol;
- hysbysu'r Pwyllgor bod rhaid i bob awdurdod lleol, dan ddarpariaethau Deddf Tai (Cymru) 2014, gynnal 'Asesiad o Anghenion Llety' mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o bum mlynedd;
- cadarnhau bod LIC wedi cymeradwyo proses Asesiad o Anghenion Sir Ddinbych, a gynhaliwyd yn 2015, ac wedi cydnabod ei gasgliadau yn Ebrill 2017;

- nodi bod yr asesiad o anghenion yn amlwg wedi canfod fod ‘anghenion’ preswyl y sir yn gorwedd yng nghyffiniau’r A55, yn hytrach nag mewn ardaloedd agos i lwybrau cefnffyrdd eraill sy’n teithio trwy’r sir, h.y. yr A5 a’r A494. Yn ogystal, roedd mwyafrif y gwersylloedd anghyfreithlon yn y sir yn y blynyddoedd diweddar hefyd wedi bod yng ngogledd y sir, a dyma’r rheswm dros benderfynu y dylid lleoli’r safle teithiol hefyd yn agos i’r A55;
- cadarnhau, gan y canfuwyd angen am safleoedd sipsiwn a theithwyr, y gallai LIC neu’r gymuned sipsiwn a theithwyr geisio her gyfreithiol drwy’r Uchel Lys os byddai’r Cyngor yn methu yn ei ddyletswydd i ddarparu safleoedd. Gallai trigolion lleol ddod â her gyfreithiol yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio maes o law, os ydynt o’r farn ei fod wedi’i roi ar sail annibynadwy. Byddai angen gwneud her gyfreithiol o’r fath o fewn tri mis i ganiatáu’r cais cynllunio;
- rhoi sicrwydd i’r Pwyllgor a’r Cabinet eu bod wedi cael gwybodaeth fanwl ddiudedd mewn perthynas â phob safle oedd ar y rhestr fer pan wnaethant benderfynu ar yr opsiynau yr oeddent yn eu ffafrio, ac yr ymgynghorwyd â’r Aelod Arweiniol ar yr argymhelliad arfaethedig a gyflwynwyd i’r Cabinet;
- nodi y byddai effaith datblygiad y safle ar eiddo cyfagos yn cael ei asesu er dibenion cais cynllunio dan yr un meini prawf ag unrhyw ddatblygiadau preswyl eraill;
- cadarnhau y cynhaliwyd astudiaeth ecolegol ar safle’r datblygiad arfaethedig ac y casglwyd nad oedd unrhyw resymau ecolegol fyddai’n rhwystro datblygiad y safle.

Sicrhaodd yr Aelod Arweiniol y cynghorwyr ei fod wedi cael crynodeb bob mis gan swyddogion oedd yn rhan o’r prosiect ers cael ei benodi’n ddeilydd y portffolio, a’i fod felly’n hyderus y rhoddwyd diwydrwydd dyladwy i bob agwedd ar y broses i ganfod safleoedd addas.

Cyn i’r Pwyllgor drafod ei gasgliadau a’i argymhellion, rhoddwyd cyfle i’r Cynghorydd Scott grynhoi pam ei fod ef a’i gyd-lofnodwyr o’r farn y dylai’r Pwyllgor argymhell i’r Cabinet adolygu ei benderfyniad i ddynodi safle Green-gates Farm East fel safle a ffefrir er diben bodloni rhwymedigaethau’r Cyngor mewn perthynas â ddarparu safle sipsiwn a theithwyr. Pwysleisiodd eu bod o’r farn gadarn bod y Cyngor wedi rhuthro i ddynodi safleoedd er mwyn ei alluogi i sicrhau cyllid LIC tuag at y costau sy’n gysylltiedig â bodloni’r angen a nodwyd. Er mwyn cyflwyno cais cyn y dyddiad cau oedd yn agosáu, roeddent o’r farn bod yr adroddiad a gyflwynwyd i’r Cabinet ar 25 Medi yn tueddu o blaid safle Green-gates Farm East, ac nad oedd digon o wybodaeth ar gael yn rhwydd i bob cynghorwr sir drwy gydol y broses ddemocrataidd i’w galluogi i fod yn ymwybodol o ba safleoedd oedd yn cael eu hystyried, na’r rhesymau pam y barnwyd hwy’n addas neu’n anaddas. Wrth ymateb i hyn, nododd Swyddog Monitro’r Cyngor bod yr adroddiadau i’r Cabinet drwy gydol y broses wedi’i heithrio rhag cael eu cyhoeddi ar sail cyfrinachedd masnachol ac ariannol, ond eu bod wedi bod ar gael i aelodau etholedig eu darllen.

Wrth grynhoi, bu i’r Cadeirydd gdnabod bod y Pwyllgor Craffu wedi deall yn llawn bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu safleoedd preswyl a theithiol ar gyfer sipsiwn a theithwyr os canfuwyd angen. Roedd hefyd yn fodlon bod angen o’r fath wedi cael ei ganfod. Fodd bynnag, roedd pryderon yr aelodau’n ymwneud â phroses oedd wedi arwain at benderfyniad ar y safleoedd a ffefrir. Ym marn y

Pwyllgor Craffu, oherwydd natur ddadleuol y penderfyniad a'r perygl cysylltiedig i'w henw da, roedd angen i'r aelodau gael sicrwydd bod pob safle posib wedi cael eu hystyried mewn digon o fanylder, a bod pob safle wedi bod yn destun proses asesu unffurf cyn cael eu dileu o'r rhestr derfynol o safleoedd posib a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 25 Medi.

Ar ôl adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 25 Medi, teimlai aelodau'r Pwyllgor Craffu na chyflwynwyd gwybodaeth gymaradwy ddigonol i'r Cabinet ar 'fanteision ac anfanteision' pob safle i'w alluogi i ddod i benderfyniad cytbwys, e.e. effaith sŵn, effaith ar drigolion/ ardaloedd gwaith, dibrisio eiddo cyfagos, gwybodaeth am berygl o lifogydd, gwybodaeth ariannol gyson am waith adfer ac ati. Ar y sail hon, dylid gofyn i'r Cabinet ailystyried y penderfyniad a wnaeth ar 25 Medi, ac wrth adolygu ei benderfyniad, dylai'r Cabinet feddu ar y wybodaeth ychwanegol gymaradwy gytbwys a ddarparwyd i aelodau'r Pwyllgor Craffu yn y cyfarfod presennol, er mwyn iddynt allu asesu'r cynigion a gyflwynir iddynt yn rhwydd ac yn wrthrychol.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am gael codi ei bryderon cyffredinol gyda'r Cabinet am ba wybodaeth sydd ar gael am benderfyniadau posib y Cabinet i gynghorwyr nad ydynt yn rhan o'r Cabinet. Gan nad oedd y cynghorwyr nad oeddent yn rhan o'r Cabinet yn gallu cael gafael ar bapurau cyfarfodydd briffio'r Cabinet, roedd hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt ddilyn y broses o wneud penderfyniad. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai pob penderfyniad allai fod yn ddadleuol, tebyg i'r mater hwn, gael eu cyflwyno yn y dyfodol yn sesiwn friffio'r Cyngor er mwyn sicrhau bod pob cynghorydd yn cael y wybodaeth lawn amdanynt ymlaen llaw. Os byddai angen, gellid cyflwyno cynigion i sesiwn friffio'r Cyngor drwy gydol y broses o wneud penderfyniad, er mwyn sicrhau bod pob cynghorydd yn gwbl gyfarwydd â hwy.

Diolchodd y Cadeirydd i'r llofnodwyr am alw'r penderfyniad i mewn, i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion am fynychu ac ateb cwestiynau'r aelodau, a bu i'r Pwyllgor:

BENDERFYNU, yn amodol ar y sylwadau uchod, argymhell i'r Cabinet:

- (i) *gydnabod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniadau'r Cabinet ar 25 Medi;*
- (ii) *ailystyried y penderfyniad a wnaeth ar 25 Medi 2018 ynglŷn â lleoliad arfaethedig y safleoedd preswyl a theithiol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych, gan ystyried y wybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Pwyllgor Craffu amdani; ac*
- (iii) *yn y dyfodol, drwy ddarparu gwybodaeth yn sesiynau Briffio'r Cyngor, sicrhau y rhoddir gwybodaeth drylwyr i'r holl gynghorwyr sir ynglŷn â phenderfyniadau a allai fod yn ddadleuol y disgwylir i'r Cyngor neu'r Cabinet eu gwneud.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 25 Hydref 2018 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Glenn Swingler, Andrew Thomas a Graham Timms (Is-Gadeirydd yn Cadeirio)

Y Cyngorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy ar gyfer eitem 5 ar y Rhaglen.

Sylwedyddion - Y Cynghorwyr Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd (TW), Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (TD), Arweinydd Tîm: Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau (PM), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

Roedd Kelly Thomas o Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y Rhaglen.

PWYNT SYLW

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cyngorydd Huw Williams, fe wnaeth yr Is-Gadeirydd, y Cyngorydd Graham Timms gadeirio'r cyfarfod.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Anton Sampson Cheryl Williams a Huw Williams

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Economi a Llywodraethu Corfforaethol ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer eitem rhif 6 ar y Rhaglen oherwydd ymrwymiad blaenorol.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Merfyn Parry gysylltiad personol yn eitem rhif 5 ar y Rhaglen - Dyluniad Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd Arfaethedig gan fod ei gwmni yn contractio ar ran Biogen a oedd yn ymdrin â gwastraff bwyd o Waith y Waen.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6 Medi 2018.

Materion yn Codi - Tudalen 9, Eitem Rhif 5 Rhoi Cynnig Gofal Plant Am Ddim Llywodraeth Cymru ar waith yn Sir Ddinbych - roedd Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r ymholiad yn ymwneud â gohebiaeth ganddynt ar y mater hwn a oedd yn Saesneg yn unig a sicrhodd y Swyddogion y byddai gohebiaeth yn y dyfodol yn ddwyieithog.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Medi 2018 fel cofnod cywir.

5 DYLUNIAD NEWYDD ARFAETHEDIG Y GWASANAETH GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Cyn i'r Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy gyflwyno'r adroddiad a'r atodiadau ar y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd arfaethedig (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol), cyflwynodd Kelly Thomas o Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) Cymru i'r cyfarfod. Eglurwyd bod WRAP Cymru yn sefydliad a oedd yn gweithio gyda llywodraethau, busnesau a chymunedau i ddarparu datrysiadau ymarferol er mwyn gwella economi cynaliadwy ac effeithlon o ran adnoddau. Eglurodd yr Aelod Arweiniol bod Kelly Thomas wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i ddatblygu'r model arfaethedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod.

Yn ystod ei gyflwyniad, dywedodd yr Aelod Arweiniol wrth yr aelodau bod llawer o sesiynau/ gweithdai wedi'u cynnal ar gyfer aelodau etholedig yn ystod datblygiad y model newydd arfaethedig, er mwyn ceisio eu barn a'u briffio ar yr angen i newid y model gwastraff ac ailgylchu presennol. Er bod Sir Ddinbych wedi llwyddo am flynyddoedd i gadw ei safle fel y Cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru mewn perthynas ag ailgylchu gwastraff y cartref, roedd targedau a disgwyliadau cenedlaethol yn newid. O dan strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' Llywodraeth Cymru a gofynion statudol Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, erbyn 2024/25 bydd disgwyl i awdurdodau lleol gynyddu'r swm o wastraff sy'n cael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio i 70%. Ar hyn o bryd, roedd Sir Ddinbych yn bodloni'r targed o 64% a osodwyd ar gyfer 2019/20, ond roedd ei berfformiad wedi aros yr un fath yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly, os nad oedd yn gallu cyrraedd y targed o 70% erbyn 2024/25 byddai modd codi dirwy arno o hyd at £200 y dunnell ar bob tunnell yr oedd yn ei anfon i safle tirlenwi a oedd yn uwch na'i lwfans tirlenwi. Yn ychwanegol i'r newidiadau i dargedau cenedlaethol, roedd agwedd y cyhoedd tuag at gyfrifoldeb dynoliaeth tuag at y blaned a chenedlaethau'r dyfodol hefyd yn newid, felly roedd angen dulliau mwy effeithiol i gael gwared ar wastraff ac ailgylchu/ aildddefnyddio. O ystyried yr holl elfennau hyn, roedd y Cyngor, o dan y model newydd, yn cynnig -

- newid amllder casgliadau gwastraff ailgylchadwy o bob pythefnos i bob wythnos

- cynyddu capasiti casgliadau gwastraff ailgylchadwy drwy ddarparu system ddioli ymyl y ffordd 'trolibocs'.
- ehangu'r gwasanaeth casglu tecstilau ac esgidiau i gynnwys y sir gyfan; cyflwyno casgliadau ymyl y ffordd ychwanegol ar gyfer offer trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) a gwasanaeth casglu batris y cartref.
- cyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff hylendid dynol e.e. clytiau a chynhyrchion anymataliaeth ac ati, y gellir gofyn amdano, a
- newid amllder y gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol presennol o bob pythefnos i bob pedair wythnos ar gyfer y mwyafrif o aelwydydd.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol, er nad oedd modd cyfrifo'r gost wirioneddol o gyflwyno'r model newydd ar hyn o bryd oherwydd graddau'r gwaith a oedd angen ei wneud i ail-fodelu depos y Cyngor i ymdrin â'r gwastraff a fyddai'n cael ei anfon atynt, oherwydd y grant cyfalaf sylweddol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r gwasanaeth didoli ymyl y ffordd, roedd gan y model y potensial i leihau'r pwysau ar y gyllideb a oedd eisoes yn bresennol o fewn y gwasanaeth casglu presennol a oedd ar hyn o bryd yn cael ei gyllido gan gronfeydd wrth gefn. Yn ychwanegol, roedd y model newydd yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu a rheoli gwaredu gwastraff yn y dyfodol.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol, Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu'r Cyngor a chynrychiolydd WRAP Cymru nodi'r canlynol -

- dywedwyd bod gan yr holl fudd-ddeiliaid rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y sir yn cyflawni'r targed ailgylchu o 70%. Bydd gan breswylwyr yn benodol rôl fwy i'w chwarae drwy'r cynllun didoli ymyl y ffordd, gan fod gan yr agwedd hon y potensial i gynyddu swm y gwastraff ailgylchadwy sy'n cael ei brosesu;
- cadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd cynnal ei lefel bresennol o 64% mewn perthynas ag ailgylchu gwastraff yn y dyfodol oherwydd newidiadau i weithgynhyrchu cynnyrch. Roedd gan y model rheoli gwastraff newydd arfaethedig, a oedd yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gwastraff yn y dyfodol, y potensial i godi perfformiad y Cyngor i 70%, mynd i'r afael â phwysau cyllidebol o fewn y gwasanaeth a darparu buddion a chyfleoedd ar gyfer menter gymdeithasol leol a'i gweithwyr;
- dywedwyd, er bod y system ailgylchu 'bin glas' cymysg wedi profi'n hynod boblogaeth ymhlith preswylwyr, gwelwyd tueddiad yn ddiweddar o unigolion yn rhoi gwastraff nad oedd modd ei ailgylchu yn y biniau hyn ac felly'n llygru'r ffrwd ailgylchu;
- nodwyd eu bod o'r farn y byddai cyflwyniad y model gwastraff newydd yn cynyddu'r cyfraddau ailgylchu yn y rhanbarth o oddeutu 3.1%. Roedd hwn yn amcangyfrif ceidwadol, roedd ardaloedd eraill a oedd wedi cyflwyno systemau tebyg yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi llwyddo i gynyddu eu cyfraddau ailgylchu o oddeutu 8%. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi nodi cynnydd o 14% o ran cyfanswm y gwastraff ailgylchadwy yr oedd yn ei gasglu yn dilyn cyflwyniad gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol bob 4 wythnos ar draws y sir, er hyn roedd ei berfformiad ailgylchu cyn y newid yn is na pherfformiad Sir Ddinbych;

- dywedwyd mai'r prif gynnyrch nad oedd modd ei ailgylchu ar hyn o bryd oedd ffilm plastig, er hynny, roedd profion yn mynd rhagddynt er mwyn ceisio canfod datrysiad i'r broblem hon;
- cadarnhawyd bod gan y Gwasanaeth dîm o bum unigolyn a oedd yn ymweld ag unigolion ac aelwydydd gyda'r bwriad o'u haddysgu ar sut i reoli eu gwastraff cartref yn briodol. Roedd y Swyddogion hyn, ar gyfartaledd, yn ymgymryd ag oddeutu 1,000 o ymweliadau bob chwarter. Pe bai'r model newydd yn cael ei gymeradwyo, byddai gan y swyddogion hyn rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyfathrebu gofynion a buddion y dull newydd â phreswylwyr a landlordiaid. Byddai gan WRAP rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran y strategaeth gyfathrebu ar gyfer y model newydd arfaethedig.
- dywedwyd os oedd bocsb/ bin ailgylchu wedi'i lygru'n llwyr byddai swyddogion yn ymweld â'r aelwyd dan sylw i drafod y mater. Fodd bynnag, os mai dim ond ychydig eitemau oedd yn llygredig o fewn y bocsb, byddai'r eitemau hynny'n cael eu gadael ar ôl er mwyn i'r unigolyn gael gwared arnynt yn y ffordd briodol.
- dywedwyd bod Bwrdd Prosiect Gwastraff wedi'i sefydlu i oruchwylio ymchwil a chyflwyniad y model gwastraff newydd arfaethedig. Roedd y Bwrdd yn cyfarfod bob pythefnos. Un o'r eitemau sefydlog ar y rhaglen oedd 'cyfathrebu' gan fod y Bwrdd, yn fuan iawn ar ôl sefydlu, wedi nodi pwysigrwydd cyfathrebu'r negeseuon cywir i breswylwyr cyn cyflwyno'r model newydd.
- rhoddwyd gwybod i aelodau bod effaith y newid arfaethedig i'r model darparu gwasanaethau ar breswylwyr ac ar enw da'r Cyngor wedi'i nodi'n fuan yn ystod y broses gan fod ganddo'r potensial i gyfrannu tuag at egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ystyried nodau ac amcanion y Ddeddf, cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ac fe adolygwyd y casgliadau gan Banel 'Cyfeillion Beirniadol', sef panel traws-wasanaeth mewnol. Roedd y Panel hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o lawer o wasanaethau a oedd wedi archwilio pob agwedd o'r Asesiad o Effaith ar Les a dyluniad y cynwysyddion;
- dywedwyd er bod peth dryswch ymhlith y cyhoedd o ran pa eitemau oedd yn ailgylchadwy, byddai'r Cyngor yn cynghori unigolion i roi pob dim heblaw cynwysyddion plastig du yn y bin ailgylchu. Dywedwyd nad oedd modd ailgylchu pecynnau plastig du a ffilm plastig ar hyn o bryd. Roedd llawer o weithgynhyrchwyr yn ceisio lleihau eu defnydd o blastig du nes bo modd dylunio technoleg i'w wahanu oddi wrth liwiau eraill.
- cadarnhawyd bod potiau, tybiau a hambyrddau plastig i gyd yn cael eu derbyn gan weithgynhyrchwyr yn y DU a oedd yn ymdrin â gwastraff ailgylchadwy. Fodd bynnag, un o brif fanteision y model gwastraff newydd arfaethedig oedd ei botensial i ddarparu deunyddiau i'w hailgylchu o ansawdd gwell i weithgynhyrchwyr yn y DU eu defnyddio.
- dywedwyd bod gwastraff ailgylchu Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cael ei anfon i Felin Bapur Shotton, lle roedd yn cael ei drefnu a'i werthu i weithgynhyrchwyr. Roedd gweithredwyr y Felin yn chwilio'r farchnad yn rheolaidd er mwyn ceisio cael y pris gorau am y 'gwastraff' a oedd yn cael ei werthu.
- cadarnhawyd y byddai'r gwasanaeth casglu gwastraff hylendid dynol arfaethedig yn wasanaeth wythnosol, rhad ac am ddim y gellir gofyn amdano. Byddai aelwydydd yn cael gymaint o gynhwysedd a oedd ei angen ar gyfer y gwasanaeth hwn;
- dywedwyd bod manylion ynglŷn â'r cynwysyddion a ddarperir, amllder casgliadau, dull casglu, capasiti wythnosol a'r gweithdrefnau rheoleiddio a oedd yn gysylltiedig â phob math o gasgliad, i'w cael yn Atodiad I [A] i'r adroddiad.

- dywedwyd bod ymarferoldeb cyflwyno gwasanaeth casglu 'gwastraff anifeiliaid anwes' wedi'i archwilio ar gais cynghorwyr. Fodd bynnag, daeth yn amlwg y byddai cyflwyno gwasanaeth arbennig yn gostus ac felly ni fyddai'n ddefnydd cost effeithiol o adnoddau. Roedd hefyd pryderon o ran iechyd a diogelwch yn ymwneud â gweithwyr gwasanaeth mewn perthynas â'r math hwn o ddarpariaeth arbennig. Nid oedd gan unrhyw ardal awdurdod lleol yn y DU yn wasanaeth casglu 'gwastraff anifeiliaid anwes' arbennig ar hyn o bryd. Roedd Swyddogion o'r farn y byddai'n fwy 'cost-effeithiol' i roi 'gwastraff anifeiliaid anwes' yn y sachau gwastraff gweddilliol yn hytrach na'i gasglu ar wahân. Nid oeddent yn rhagweld y byddai 'gwastraff anifeiliaid anwes' yn broblem fawr. Os oedd unigolion yn dymuno cael gwared ar unrhyw aroglau a oedd yn cael ei achosi gan wastraff anifeiliaid anwes, dywedodd y swyddogion y dylid rhoi'r gwastraff mewn bagiau plastig yn hytrach na bagiau pydradwy ac yna eu rhoi yn y sach gwastraff gweddilliol. Fodd bynnag, byddai hyn yn benderfyniad i'r unigolyn.
- dywedwyd y dylai aelwydydd a oedd ddim ond â gwastraff AHP yn achlysurol, hynny yw pan fo babanod ac ati yn ymweld, byddai modd iddynt roi'r gwastraff gyda'r gwastraff gweddilliol yn hytrach na chael bin AHP ar gyfer casgliadau rheolaidd.
- dywedwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i archwilio a oedd modd i aelwydydd, nad oedd â biniau olwynion oherwydd problemau mynediad, gael sachau diogel rhag wylanod/ anifeiliaid ar gyfer gwastraff ailgylchu a gweddilliol, a fyddai o gymorth i gadw'r sachau untro a gyflwynir â'i gilydd. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddylunio datrysiadau ymarferol ar gyfer eiddo lle na fyddai'n bosibl gweithredu model 'darpariaeth gwasanaeth safonol' e.e. yr eiddo a wasanaethir gan ardaloedd storio biniau cymunedol. Pe bai'r treialon hyn yn llwyddiannus, byddai cyflwyno sachau a/neu gynwysyddion i nifer fawr o'r aelwydydd hyn ar draws y sir, yn enwedig yr aelwydydd hynny sy'n defnyddio cyfleusterau gwastraff cymunedol, yn cynyddu cyfraddau ailgylchu, yn ogystal â chyflwyno cadis gwastraff bwyd ynghyd â gorfodaeth i gydymffurfio â'r gwasanaeth gwastraff bwyd. Yn ychwanegol, cyhoeddodd
- cadarnhawyd bod y cynnig Llywodraeth Cymru yn ddiweddar bod cyllid ar gael ar gyfer materion cyfathrebu gwastraff bwyd ac ailgylchu. Pe na bai modd canfod datrysiadau priodol i storio gwastraff gweddilliol yn ddiogel am 4 wythnos mewn rhai ardaloedd, byddai'r Gwasanaeth yn trefnu casgliadau yn amlach. ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol bob pedair wythnos ac nid bob mis.
- cydnabuwyd bod rhai eiddo, gyda mynediad cyfyngedig at gefn eu tai, yn tueddu i gadw eu biniau ar olwynion ac ati yn eu gerddi blaen. Roedd yr arfer hwn, a oedd yn broblem ar draws y wlad, yn hyll ac nid oedd yn helpu wrth hyrwyddo'r ardal leol i ymwelwyr a busnesau. Roedd y Cyngor ar hyn o bryd yn ceisio archwilio opsiynau ar gyfer atal hyn er mwyn gwella'r amgylchedd lleol. Pe bai eiddo â ierdydd hygyrch yn y cefn, gallai'r Cyngor ystyried cynnig gwasanaeth y codir tâl amdano i landlordiaid os ydynt yn cael problem â thenantiaid sy'n gwrthod cymryd cyfrifoldeb dros eu biniau er mwyn eu cyflwyno ger pwyntiau casglu swyddogol ar ymyl y ffordd. Byddai'r gwasanaeth hwn yn casglu'r biniau o bwyntiau mynediad hygyrch yn y cefn a byddai'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda landlordiaid i lunio datrysiadau priodol.
- dywedwyd bod yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd, 'Ailgylchu Mwy, Gwastraffu Llai,' a'r sesiynau galw heibio cysylltiedig wedi tynnu sylw at y ffaith fod preswylwyr yn ei chael hi'n anodd ailgylchu mwy gan fod y biniau ailgylchu cymysg glas yn llawn yn bell cyn y diwrnod casglu bob pythefnos, ond roedd hyn yn llawer llai cyffredin yn achos y biniau gwastraff gweddilliol. Roedd preswylwyr hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith y byddent yn croesawu'r cyfle i

ailgylchu ystod ehangach o eitemau. Roedd y model newydd arfaethedig yn mynd i'r afael â'r awydd hwn. Byddai'r system 'trolibocs' yn rhoi'r cyfle i breswylwyr ailgylchu hyd at 35 litr yn ychwanegol yr wythnos, gyda gwasanaethau casglu ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer AHP, WEEE a batris bychain.

- dywedwyd bod y gyfradd ymateb i'r arolwg ymgynghoriad cyhoeddus, cafwyd cyfanswm o 2,450 arolwg, yn gadarnhaol, ac er nad oedd nifer fawr wedi mynychu'r sesiynau galw heibio, roedd y rhai a oedd wedi mynychu wedi bod yn gefnogol iawn o'r dull i gynyddu'r lefelau ailgylchu.
- cadarnhawyd, yn rhan o'r casgliad gwastraff ailgylchu, y byddai sach y gellir ei hailddefnyddio a'i hatodi at handlen y 'trolibocs' yn cael ei darparu er mwyn ailgylchu cardfwrdd brown.
- dywedwyd y byddai bocsys duon ar gyfer y 'trolibocs' yn rhatach i'w prynu na rai lliw a chytunwyd ag aelodau y byddai'r rhain yn llai amlwg os oedd rhaid eu storio y tu blaen i'r tŷ. Fodd bynnag, efallai y byddai'n rhaid rhoi caeadau gwahanol liw ar y bocsys er mwyn helpu unigolion sydd â nam ar eu golwg i wahaniaethu rhwng y bocsys a'r hyn y dylid ei roi ym mhob boc. Fel arall byddai modd darparu bocsys gwahanol liw ar gais i'r aelwydydd hynny a oedd eu hangen.
- dywedwyd, pe bai'r model newydd yn cael ei gymeradwyo, byddai modd i aelwydydd wneud cais am fin gwastraff gweddilliol mwy os oedd angen. Fodd bynnag, rhagwelwyd na fyddai gan bob aelwyd angen bin gwastraff gweddilliol mwy os oeddent yn cadw at y polisi ailgylchu, er enghraifft eiddo ag un unigolyn yn byw ynddo.
- cadarnhawyd y byddai gwasanaeth â chymorth yn parhau ar gyfer preswylwyr nad oedd yn gallu rhoi eu biniau o flaen eu heiddo am resymau corfforol. Er hynny, mewn aelwydydd lle'r oedd unigolion abl hefyd yn byw, byddai disgwyl iddynt roi eu cynwysyddion gwastraff allan i'w casglu. Byddai hyn yn cynnwys eiddo mewn ardaloedd gwledig.
- dywedwyd na fyddai'n ariannol hyfyw i ganiatáu i breswylwyr a oedd yn dymuno parhau â'r system ailgylchu bresennol i dalu am gael parhau i ddefnyddio'r system 'bin glas', gan y byddai hyn yn golygu anfon loriau gwahanol i gasglu'r gwastraff.
- dywedwyd na ddylai'r system 'trolibocs' arfaethedig arwain at focsys trymach na'r bin glas presennol, gan y byddai'r gwastraff yn cael ei gasglu bob wythnos yn hytrach na phob pythefnos ac roedd 'gwastraff bwyd' yn drymach na unrhyw wastraff arall. Pe bai defnydd o'r system casglu 'gwastraff bwyd' yn cael ei orfodi yn llym, byddai hyn yn lleihau swm y gwastraff bwyd sydd yn ein system gwastraff gweddilliol. Byddai gorfodaeth i gydymffurfio â'r system ailgylchu 'gwastraff bwyd' yn lleihau swm a phwysau'r gwastraff gweddilliol a'r posibilrwydd i wastraff gweddilliol achosi arogleuon amhlesurus ac ati.
- pwysleisiwyd bod derbyn y cyllid cyfalaf o £7m gan Lywodraeth Cymru yn ddibynnol ar y Cyngor yn mabwysiadu model gwastraff ac ailgylchu Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o gyflawni ei dargedau ailgylchu a thirlenwi uchelgeisiol. Hyd yma, roedd y Cyngor wedi dewis peidio â newid ei system, ond byddai'r cyllid cyfalaf ar gael yn cefnogi'r costau cysylltiedig ag ailfodelu'r depos gwastraff ac ailgylchu er mwyn gweithredu'r model newydd. Nid oedd prisiau manwl yn ymwneud â chostau ailddatblygu a gweithredu'r depos (neu weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos) wedi'u cyfrifo eto gan fod angen cefnogaeth yr aelodau ar gyfer y model newydd arfaethedig yn gyntaf, cyn symud ymlaen i gyfrifo'r costau. Pe bai'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn gefnogol o'r cynigion byddai costau manwl yn cael eu llunio. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu

rhwng cynrychiolwyr y Cyngor a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i drafod cyllid cyfalaf cyn cyflwyno'r cynnig ger bron y Cabinet ym mis Rhagfyr 2018.

- dywedwyd bod gan y model newydd arfaethedig nifer fawr o fanteision yn gysylltiedig ag ef, yn ogystal â denu swm sylweddol o gyllid cyfalaf. Byddai'n gwella cyfraddau ailgylchu'r, ehangu'r mathau o ailgylchu oedd ar gael i breswylwyr, lleihau'r risg ariannol i'r Cyngor o ran bod yn gyfrifol am dalu ffioedd safleoedd tirlenwi a chosbau, cefnogi gwaith menter gymdeithasol leol a hybu'r economi lleol drwy greu oddeutu 18 swydd newydd. Byddai hefyd yn sicrhau bod gweithwyr presennol yn cael eu hail-hyfforddi neu'n dysgu sgiliau newydd er mwyn darparu'r gwasanaeth newydd. Roedd staff y gwasanaeth yn ymwybodol o'r cynigion
- dywedwyd bod y ddarpariaeth o gyfleusterau ailgylchu cymunedol ar y cyfan yn cynhyrchu cynnyrch ailgylchu o ansawdd isel oherwydd lefelau halogiad y cynwysyddion.
- cadarnhawyd bod Llywodraeth Y DU ar hyn o bryd yn ystyried manteision cynllun blaendal a dychwelyd.
- dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer rhaglen newid ymddygiad cenedlaethol gyda'r bwriad o annog cydymffurfedd â gwasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu. Roedd ymgyrch lleihau gwastraff eisoes wedi'u datblygu'n dda ac ar gael i'r awdurdod lleol eu defnyddio a'u lleoli. Un enghraifft o'r math hwn o newid ymddygiadol oedd y prosiect Caru Bwyd, Casáu Gwastraff. Roedd WRAP Cymru yn gweithio'n agos gyda sawl awdurdod lleol ar hyn o bryd i geisio lleihau gwastraff.
- cydnabuwyd bod archfarchnadoedd ac ati'n defnyddio llawer o becynnau plastig, yn enwedig mewn perthynas â bwyd sy'n medru mynd yn ddrwg. Fodd bynnag, nid oedd o fewn gallu'r Cyngor i newid eu harferion. Byddai'n rhaid rhoi pwysau arnynt yn genedlaethol ac yn fewnol er mwyn newid arferion o'r fath. Roedd WRAP yn gweithio'n strategol ag archfarchnadoedd ar lefel genedlaethol i leihau pecynnau plastig diangen. Roedd Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am gael gwared ar gynhyrchion gwastraff o aelwydydd neu safleoedd busnes / manwerthu.
- cadarnhawyd, o dan y Polisi Gwastraff ac Ailgylchu i gefnogi'r newid gwasanaeth arfaethedig, y byddai tâl yn cael ei godi am ddarparu bin gwastraff gweddilliol newydd i gyfeiriad nad oedd yn meddu ar fin gwastraff neu i eiddo newydd. Fodd bynnag, byddai deiliad y tŷ yn cael bin gwastraff gweddilliol mwy am ddim os y gofynnir amdano o ganlyniad i'r newid gwasanaeth arfaethedig a byddai hefyd yn cael cyfnod prawf er galluogi iddo benderfynu a oes ganddo angen y bin yn hirdymor. Felly, ni fyddai'r ffi yn dod i rym ar unwaith, byddai'n beth amser ar ôl cyflwyno'r newid gwasanaeth.
- dywedwyd y byddai'r holl finiau glas a'r biniau duon llai yn cael eu casglu a'u hailgylchu os nad oedd deiliad y tŷ am eu cadw.
- cadarnhawyd, ar hyn o bryd, nad oedd gan y Gwasanaeth unrhyw fewnbwn i'r broses cais cynllunio a/ neu rheoli adeilad mewn perthynas â darparu ardal storio biniau gwastraff ar gyfer tai newydd neu tai wedi'u hailwampio. Serch hynny, roedd hon yn agwedd yr oedd swyddogion yn dymuno mynd i'r afael â hi gyda chydweithwyr y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, gan eu bod yn credu bod gan yr 'amodau', a oedd wedi eu cynnwys yn y broses caniatâd cynllunio, y potensial i warchod a gwella'r amgylchedd lleol, a
- chadarnhawyd y byddai'r gwasanaeth casglu gwastraff gardd taladwy y gellir gofyn amdano yn parhau'r un fath pe bai'r model newydd yn cael ei gymeradwy gan fod y gwasanaeth taladwy yn cyd-fynd â Glasbrint Casglu Gwastraff y Llywodraeth.

Holodd yr Aelodau a fyddai modd ailgylchu plastig 'du' gan fod gwastraff amaethyddol, megis y plastig du a ddefnyddir i lapio beliau, yn cael ei gasglu gan gcontractwyr preifat o ffermydd a'i ailgylchu i greu meinciau, pyst ffensio a llochesau anifeiliaid ac ati. Canmolwyd y defnydd a wnaed o'r gwastraff bwyd a ailgylchwyd gan BioGen yn y sir, defnyddiwyd y gwastraff i gynhyrchu trydan a rhoddwyd y sgil-gynhyrchion ar dir amaethyddol fel gwrtaith. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gael strategaeth gyfathrebu effeithiol ar waith yn ystod camau cynllunio a gweithredu'r prosiect, gyda gohebiaeth reolaidd a chlir yn cael ei hanfon at breswylwyr gan ddefnyddio'r holl lwyfannau cyfathrebu sydd ar gael at y diben hwn, yn cynnwys addysgu disgyblion y sir ar y system sy'n cael ei chyflwyno yn y gobaith y bydd y disgyblion hyn yn llwyddo i berswadio eu teuluoedd i gydymffurfio â gofynion y system. Dywedwyd y byddai taflen yn cael ei hanfon i bob eiddo cyn y Nadolig i hyrwyddo'r manteision o ailgylchu gwastraff bwyd.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod gan y model gwastraff ac ailgylchu newydd arfaethedig hwn y potensial i newid bywydau preswylwyr ac i newid y Cyngor a'r amgylchedd. Roedd Fframwaith Cynllun Cyfathrebu eisoes wedi'i ddatblygu gan ragweld cymeradwyaeth yr aelodau i symud ymlaen â gwaith pellach mewn perthynas â'r prosiect. Cytunodd yr Aelod Arweiniol i dreialu'r cynllun yn bersonol ac fe estynnodd wahoddiad i aelodau'r Pwyllgor ymuno ag ef os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Ar ddiwedd y drafodaeth, awgrymodd y Pwyllgor y byddai o bosib yn ddefnyddiol, pe bai'r model newydd yn cael ei roi ar waith, i breswylwyr gael fideo yn dangos y camau yn nhaith deunydd ailgylchadwy, gan y byddai hyn o bosib yn tynnu sylw unigolion at bwysigrwydd ailgylchu gwastraff a phwysigrwydd eu rôl yn y broses.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (a) *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad II i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;*
- (b) *nodi bod yr arbedion refeniw presennol rhagamcanedig o £807,000 (Adran 6.2 o'r adroddiad), yn gyflawnadwy o weithredu'r dyluniad gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu arfaethedig, yn uwch nag unrhyw opsiwn arall a fodelwyd;*
- (c) *nodi'r manteision cymdeithasol (Atodiad III [2] i'r adroddiad) a'r goblygiadau ariannol (Adran 6.3 o'r adroddiad) o ddefnyddio'r trydydd sector ar gyfer casglu tecstilau a WEEE (Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff), ac argymhell y parhad ac ehangiad trefniant gyda Menter Gymdeithasol o Sir Ddinbych ar gyfer casglu, ailddefnyddio ac ailgylchu'r deunyddiau hyn;*
- (d) *cymeradwyo'r Dyluniad Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd Arfaethedig fel yr amlinellir yn Atodiad I [A] i weithredu Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer Casgliadau Gwastraff ac i alinio isadeiledd casgliadau ailgylchu gyda'r pum Awdurdod arall yng Ngogledd Cymru;*

- (e) *nodi bod y Polisi Casglu Gwastraff Cartrefi drafft (Atodiad I [B] i'r adroddiad) wedi'i ddylunio i gefnogi gweithredu a rheoleiddio'r gwasanaeth arfaethedig er mwyn bodloni arbedion refeniw a thargedau amgylcheddol;*
- (f) *nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cefnogaeth cyllid cyfalaf o £4m yn 2019/20 a £3m pellach ar 2020/21 ar gyfer gweithredu casgliadau didoli ar garreg y drws, a gofyn i'r Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a WRAP i sicrhau'r holl gronfeydd cyfalaf ychwanegol sydd eu hangen i weithredu'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd;*
- (g) *gofyn i'r Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd gyflwyno adroddiad i'r Cabinet cyn gynted â phosibl (yn amodol ar gyflawni penderfyniad (f) uchod) i argymhell gweithredu'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd a amlinellir yn Atodiad I i'r adroddiad, a*
- (h) *cheisio bod adroddiad pellach yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd Arfaethedig, yn cynnwys gwybodaeth am ddyluniad gwasanaeth, gofynion ad-drefnu depo, costau dangosol, argaeledd cyllid, a manylion am y strategaeth gyfathrebu arfaethedig, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ym mis Mai 2019.*

Ar y pwynt hwn (12.05 p.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

6 ADRODDIAD CYNNYDD TWRISTIAETH

Yn absenoldeb yr Arweinydd, cyflwynodd yr Arweinydd Twristiaeth: Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn manylu ar y cynnydd a gyflawnwyd mewn perthynas â mentrau twristiaeth amrywiol a'u cyfraniad tuag at gyflawni uchelgais gyffredinol y Cyngor mewn perthynas â datblygu economaidd.

Yn ystod ei gyflwyniad, tynnodd yr Arweinydd Twristiaeth sylw at lwyddiant Partneriaethau Twristiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru, yn enwedig yr olaf sydd wedi derbyn £140k gan Lywodraeth Cymru at ddibenion hyrwyddo cynnig twristiaeth yr ardal ar gyfer y gaeaf, a fyddai'n cefnogi'r weledigaeth o farchnata'r ardal fel cyrchfan i dwristiaid drwy gydol y flwyddyn. Y nod oedd cynyddu nifer y twristiaid a oedd yn ymweld â'r ardal, ond wrth wneud hynny, sicrhau budd economaidd cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na thwristiaeth tymhorol a oedd o fudd i'r economi am gyfnod cyfyngedig yn unig.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus a'r Arweinydd Twristiaeth -

- bod staff Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau'r Cyngor yn fodlon gweithio'n agos â grwpiau twristiaeth a digwyddiadau lleol pan yr oeddent yn trefnu digwyddiadau yn eu hardaloedd lleol. Gyda'r bwriad o symleiddio'r broses a hyrwyddo digwyddiadau lleol i'r eithaf, symleiddiwyd y broses Hyrwyddo Digwyddiadau. Roedd y ffurflen Hysbysu Digwyddiadau bellach wedi'i chrynhoi i ddwy ochr o dudalen A4. Ar ôl derbyn ffurflen wedi'i chwblhau byddai'n cael ei

rhannu â'r holl wasanaethau a'r swyddogion a fyddai angen gwybod am y digwyddiad. Yn ychwanegol, byddai'r dyddiad arfaethedig ar gyfer y digwyddiad yn cael ei wirio yn erbyn digwyddiadau hysbys eraill a oedd yn cael eu cynnal ar y diwrnod hwnnw ac os teimlwyd y byddai digwyddiadau eraill yn yr ardal leol yn effeithio ar y digwyddiad byddai'r trefnwyr yn cael gwybod. Nid oedd hyn o reidrwydd yn golygu y byddai'n rhaid newid y dyddiad, roedd y drefn hon ar waith er mwyn codi ymwybyddiaeth a chefnogi llwyddiant yr holl ddigwyddiadau lleol.

- fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol 'Cymunedau Cysylltiedig', trefnwyd adroddiad i'w gyflwyno i'r "Bwrdd Cymunedau a'r Amgylchedd" yn ei gyfarfod ym mis Hydref ar sut y gellid gwella isadeiledd yn y sir i gefnogi cynnal mathau gwahanol o ddigwyddiadau cymunedol a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar dwristiaid.
- byddai bob amser angen am lety dros nos ychwanegol i ymwelwyr yn Sir Ddinbych. Roedd hi'n ymddangos mai dim ond nifer gyfyngedig o leoedd oedd yn cynnig llety dros nos i dwristiaid yn rhan ganolog y Sir. Roedd llawer o westai i'w cael yn Ne Sir Ddinbych ac roedd llawer o safleoedd i garfannau sefydlog a theithiol yng ngogledd y sir. Er hynny, roedd gan Sir Ddinbych nifer sylweddol o letyau hunanarlwyo o safon ac roedd sawl un wedi ennill statws 5*.
- roedd gan Croeso Cymru gyllid ar gael i fusnesau llety gwyliau a oedd yn awyddus i ennill statws 4* neu 5* er mwyn eu helpu i gyflawni'r nod hwn.
- roedd sylw ar gyfryngau cymdeithasol yn sicr wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr posibl a oedd wedi ceisio gwybodaeth am yr ardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd hyn yn yr atodiadau amrywiol ynghlwm wrth yr adroddiad, yn cynnwys Atodiad 13 a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Fonitor Gweithgaredd Economaidd Scarborough (STEAM). Roedd STEAM yn mesur effaith ymwelwyr sy'n aros ac ymwelwyr dydd ar yr economi leol.
- defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i godi proffil yr ardal a dangos yr hyn oedd gan Sir Ddinbych i'w gynnig i dwristiaid, ond roedd y cyfryngau cymdeithasol yn un o sawl llwyfan codi proffil a ddefnyddiwyd at y diben hwn. Ymddangoswyd i nifer yr ymweliadau â gwefannau cyfryngau cymdeithasol gyrraedd uchafbwynt pan gynhaliwyd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth penodol.
- roedd gwaith yn mynd rhagddo i leihau nifer y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr oedd Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau'r Cyngor yn eu defnyddio i hyrwyddo'r cynnig lleol, gyda'r bwriad o ddarparu deunydd marchnata a gwybodaeth fwy penodol.
- roedd y 'Blogiau' (dolenni atynt wedi'u cynnwys yn yr atodiadau) wedi'u hysgrifennu gan unigolion annibynnol. Talodd Croeso Cymru i'r unigolion hyn lunio'r 'Blogiau', ac er bod rhannau o'u naratifau wedi'u golygu i sicrhau cywirdeb ffeithiol, gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod personoliaeth pob 'blogiwr' yn amlwg yn ei waith/ ei gwaith.
- bod yr holl wybodaeth gyhoeddus a gynhyrchwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid cyhoeddus yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog.
- nid oedd y Cyngor wedi cau unrhyw un o'i Fannau Gwybodaeth i Dwristiaid, roedd sawl un o'r cyfleusterau hyn ar draws y sir mewn adeiladau cyhoeddus e.e. llyfrgelloedd ac fe agorwyd un yn ddiweddar ar Ystâd Rhug, Corwen. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda gweithwyr y Premier Inn newydd yn Y Rhyl er mwyn archwilio'r posibilrwydd o osod Man Gwybodaeth i Dwristiaid yno. Ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn gweithredu dwy Ganolfan Groeso, un yn y Rhyl a'r llall yn Llangollen.

- nid oedd unrhyw gynllun i leihau lefel y gwasanaeth a oedd yn cael ei gynig yng Nghanolffannau Croeso'r sir. Roedd Canolfannau Croeso hefyd yn gallu cynhyrchu incwm drwy archebion a gwerthiant llyfrau ac ati. Byddai gwybodaeth mewn perthynas â nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Croeso bob blwyddyn yn cael ei darparu i aelodau.
- roedd busnesau lleol eisoes yn cydweithio â Chanolfannau Croeso mewn perthynas ag archebion, nwyddau, pecynnau gweithgareddau ac ati, ond roedd darparwyr llety a oedd yn rhan o gadwyn yn dueddol o ddewis peidio â rhyngweithio'n rheolaidd â gwasanaethau archebu Canolfannau Croeso. <0} Byddai lle a chyfle bob amser i wella'r gwasanaethau a oedd yn cael eu cynig.
- roedd gan Ganolfannau Croeso a Mannau Gwybodaeth i Dwristiaid y sir gyfoeth o wybodaeth am bwytiau o ddi-ddordeb a hanes y sir. Roedd staff y Gwasanaeth Llyfrgell yn gyfarwydd iawn â'u hardaloedd lleol ac roeddent bob amser yn barod i rannu gwybodaeth ag ymwelwyr er mwyn eu helpu i wneud y mwyaf o'u hamser a mwynhau eu profiad yn ymweld â'r ardal.
- nid oedd tystiolaeth bod busnesau llety lleol yn codi eu prisiau pan yr oedd digwyddiadau maer 'arbennig' yn cael eu cynnal yn y sir. Fodd bynnag, gan eu bod yn fusnesau annibynnol, roedd ganddynt yr hawl i godi eu prisiau os oeddent yn dymuno gwneud hynny, roedd busnesau preifat yn cael eu llywio gan bwysau marchnad yn hynny o beth.
- cafwyd cryn dipyn o gyllid ar gyfer prosiectau twristiaeth gan yr Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, roedd Croeso Cymru yn ceisio sicrwydd gan Lywodraethau Cymru a'r DU o ran cyllid ar gyfer y dyfodol yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Roedd sicrwydd cyllid y dyfodol ar gyfer twristiaeth, yn debyg i sawl maes arall, yn anhysbys.
- byddai'r profiad drwy gydol y flwyddyn i ymwelwyr yn Sir Ddinbych a'r ardaloedd cyfagos yn targedu ymwelwyr dydd a nos o drefi cyfagos megis Lerpwl a Manceinion yn ogystal ag unigolion a grwpiau sydd eisiau treulio penwythnosau tawel neu benwythnosau yn mwynhau gweithgareddau awyr agored yn yr ardal. Cymysgedd o brofiadau gwariant uchel ac isel i ymwelwyr, ac
- roedd Gogledd Cymru bellach yn dechrau datblygu ei hunaniaeth ei hun o ran twristiaeth, yn debyg iawn i Ardal y Llynnoedd. Prosiect twristiaeth y gaeaf oedd y tro cyntaf i'r rhanbarth cyfan gydweithio ar un prosiect penodol, felly roedd y prosiect hwn yn cael ei ystyried fel 'glasbrint' posibl ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl -

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod ac ar ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, derbyn y data a'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig.

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) sy'n gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- ail-gadarnhawyd yr eitem ar y rhaglen gwaith ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn ymwneud â gorfodi cynllunio a chytunwyd i wahodd yr Aelod Cabinet

Arweiniol perthnasol i'r cyfarfod hwnnw; nododd yr aelodau'r potensial ar gyfer ychwanegu eitemau at y rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn dilyn cyfarfod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu'r prynhawn hwnnw.

- byddai'r adroddiad ar gynnydd y Dyluniad Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd Arfaethedig, a geisiwyd gan y Pwyllgor yn gynt yn y rhaglen, yn cael ei raglennu ar gyfer mis Mai.
- tynnwyd sylw at faterion sy'n codi o Dân Mynydd Llantysilio i'w hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu'r prynhawn hwnnw er mwyn eu dyrannu ar gyfer craffu fel bo'n briodol ac fe gadarnhawyd y byddai adborth o'r cyfarfod aml-asiantaeth i ddod yn cael ei rannu ag aelodau.
- cododd y Cynghorydd Meirick Davies y mater o adnoddau mewn perthynas â Rheoli Adeiladu a rhoddwyd gwybod iddo y dylid codi'r mater yn yr Her Gwasanaeth yn y lle cyntaf (cynrychiolydd y Pwyllgor ar yr Her Gwasanaeth honno oedd y Cynghorydd Huw Williams). Cynghorwyd iddo hefyd gwblhau Ffurflen Gynnig gan Aelod os oedd yn dymuno i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y caiff ei manylu yn Atodiad 1 yr adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Tynnodd y Cydlynnydd Craffu sylw'r Pwyllgor at nodiadau'r Her Gwasanaeth Gwelliant Busnes a Moderneiddio ar 2 Hydref 2018 a oedd wedi'u dosbarthu'n flaenorol fel rhan o Friff Gwybodaeth y Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Glenn Swinger ei fod wedi mynychu cyfarfod llwybrau ymholi yn ddiweddar mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata er mwyn ffurfio cwestiynau ar gyfer y cyfarfod Herio Gwasanaeth a fydd yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd / Rhagfyr. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Parth Cyhoeddus y broses i aelodau adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod Herio Gwasanaeth ac fe dynnodd sylw at bwysigrwydd y ffaith bod aelodau yn ymgyswrtu â gwaith y ddau Fwrdd Rhaglen Corfforaethol a'u hannog i gwblhau'r Ffurflen Gynnig gan Aelod briodol os oeddent yn credu bod mater a fyddai'n elwa o graffu pellach.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15pm.

Adroddiad i:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	13 Rhagfyr 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc / Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Strategaeth a Datblygu
Teitl:	Comisiynu Gofal Plant Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cyn bo hir bydd Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio darparwyr i ddarparu elfennau gofal plant y Rhaglen Dechrau Deg yn ogystal â'r Cyfnod Sylfaen mewn Addysg Gynnar. Yn sgil adolygu ein trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn, rydym wedi penderfynu mai eu hail-gomisiynu fydd y ffordd orau o sicrhau gwasanaethau o ansawdd da, dewis i rieni, mynediad teg at gyllid a gwerth am arian. Rydym yn bwriadu cynnal y broses gomisiynu hon ddechrau 2019.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- Mae elfennau gofal plant y ddwy raglen gyda'i gilydd yn cynrychioli ymrwymiad cyllidebol sylweddol.
- Mae'r gwasanaethau yn cefnogi'r Blaenoriaeth Corfforaethol ar gyfer Pobl Ifanc.
- Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i'r pwyllgor adolygu'r penderfyniadau ynghylch ail-gomisiynu'r broses ac archwilio pwnc sy'n cael effaith ar breswylwyr a busnesau lleol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad hwn ac yn cefnogi'r penderfyniad i ail-gomisiynu elfennau gofal plant Addysg Gynnar a'r Rhaglen Dechrau'n Deg drwy brosesau ffurfiol cyfochrog.

4. Manylion yr Adroddiad

- Mae gofal plant Addysg Gynnar (neu Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen) yn rhan o'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen statudol i blant rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru yn ariannu 10 awr o addysg yr wythnos i blant yn Sir Ddinbych yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, a gaiff ei ddarparu mewn lleoliad gofal plant megis cylch chwarae neu feithrinfa ddydd preifat. Mae'r lleoliadau yn dilyn addysgeg, fframwaith ac ethos y Cyfnod Sylfaen. Fe'u cefnogir gan athro/athrawes cymwysedig ac fe'u harchwilir gan Estyn i reoleiddio safonau.
- Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen Llywodraeth Cymru (LIC) i deuluoedd sydd â phlant dan 4 oed yn byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru, gan gynnwys

rhannau o'r Rhyl, Prestatyn a Dinbych. Yn Sir Ddinbych, mae Dechrau'n Deg yn rhan o wasanaethau Cymorth Cynnar ochr yn ochr â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Yn ogystal â gofal plant, mae Dechrau'n Deg yn darparu rhaglenni rhianta, cymorth gydag iaith a lleferydd â gwasanaeth ymwelydd iechyd uwch. Mae Dechrau'n Deg yn ariannu gofal i blant o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 2 oed tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair, am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn. Mae lleoliadau Gofal Plant yn derbyn cymorth gan Athro/Athrawes Ymgynghorol a Chynorthwywyr Addysgu Dechrau'n Deg.

- Rydym wedi adolygu mecanweithiau ariannu ar gyfer gwasanaethau gofal plant Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg, gan ystyried y trefniadau presennol, arweiniad Llywodraeth Cymru a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor. Wrth symud ymlaen, rydym wedi penderfynu ail-gomisiynu'r gwasanaethau hyn i sicrhau:
 - Gwasanaethau gofal o ansawdd da i blant
 - Dewis i rieni a theuluoedd
 - Mynediad agored a theg i gyllid
 - Gwerth am arian
- Mae arweiniad y Cyfnod Sylfaen yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol edrych ar y ffordd yr ydym yn comisiynu gofal plant Addysg Gynnar er mwyn cynyddu gwerth i blant a sicrhau dewis o leoliadau sy'n cyd-fynd ag amgylchiadau ac anghenion rhieni.
- Mae Canllawiau Rheolaeth Ariannol Dechrau'n Deg yn cynghori awdurdodau lleol i ddilyn ein gweithdrefnau lleol wrth ariannu gwasanaethau, gan gymryd camau rhesymol i sicrhau'r gwerth am arian gorau posibl o arian Dechrau'n Deg.
- Mae gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg wedi cael eu tendro o'r blaen yn 2013 ac nid yw darpariaeth gofal plant Addysg Gynnar wedi'i gomisiynu'n ffurfiol o'r blaen. Rydym yn ystyried mai ail-gomisiynu'r gwasanaethau hyn yw'r ffordd orau i gyflwyno llywodraeth addas a sicrhau gwerth am arian.
- Mae Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar wedi cytuno i fynd ati ar y cyd. Caiff bob gwasanaeth gofal plant eu hail-gomisiynu drwy ddwy broses gyfatebol ar wahân, gan rannu a threfnu dogfennaeth a dulliau cyn belled â phosibl.
- Bydd contractau presennol y ddwy raglen yn dod i ben ym mis Awst 2019. Daw contract Dechrau'n Deg i ben ym mis Mawrth 2019 a bydd yn cael ei ymestyn. Mae gan ddarparwyr Addysg Gynnar gytundebau treigl a fydd yn dod i ben yn ffurfiol.
- Bydd gwasanaethau Gofal Plant Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar yn cael eu hail-gomisiynu yn 2019.
- Bydd cytundebau newydd ar waith i ddechrau ym mis Medi 2019. Bydd yn cyd-fynd â'r flwyddyn ysgol i sicrhau cyn lleied o amhariad â phosibl ar blant pe bai'n rhaid newid darparwyr.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae'r rhaglenni Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar yn cyfrannu at sicrhau bod Sir Ddinbych yn fan lle mae pobl ifanc yn gallu ffynnu. Mae'r gwasanaethau gofal plant a gaiff eu hariannu, eu strwythuro a'u monitro drwy'r rhaglenni hyn yn cefnogi darpariaeth addysg ardderchog, gan osod y sail i ddatblygu sgiliau byw, cefnogi pontio cadarnhaol i'r ysgol gynradd a hyrwyddo lles corfforol ac emosiynol o oedran cynnar i atal problemau rhag codi yn hwyrach mewn bywyd. Ar yr un pryd, mae gofal plant a

ariannir yn helpu rhieni i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys yn rhannau mwyaf difreintiedig y sir.

- 5.2 Drwy sicrhau gwasanaethau gofal plant o ansawdd uchel, dewis gwell i rieni, mynediad gwell at arian a'r gwerth am arian gorau posibl, bydd ail-gomisiynu'r gwasanaethau hyn yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiaidau i ddarparu cymorth i rieni er mwyn sicrhau'r dechrau gorau i fywyd eu plant, i dyfu yn oedolion annibynnol a bodlon. Mae'r broses ail-gomisiynu yn cefnogi ein haddewid i weithio â'n partneriaid, ysgolion a busnesau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- Cyfanswm y cyllid dros 4 mlynedd yw £1,987,128 i Ddechrau'n Deg a £1,411,500 i Addysg Gynnar.
- Mae'r aelodau staff ac adnoddau angenrheidiol i ddatblygu a chynnal y prosesau ail-gomisiynu wedi'u clustnodi o blith y timau Addysg Blynnyddoedd Cynnar a Chynradd a Dechrau'n Deg. Mae hyn wedi cael rhywfaint o effaith ar y patrwm gweithredu dydd i ddydd. Cefnogir staff y gwasanaeth gan y Partner Busnes Caffael (Gofal Cymdeithasol) a'r Swyddog Strategaeth a Datblygu Addysg Plant a Phobl Ifanc.
- Nid oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol i gefnogi gweithrediad gwasanaethau gofal plant yn dilyn cwblhau'r trefniadau newydd.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Byddwn yn cwblhau Asesiad Effaith Lles llawn o'r broses gomisiynu unwaith y byddwn wedi derbyn a dechrau gwerthuso cyflwyniadau gan ddarparwyr. Bydd hyn yn rhoi syniad clir ac ymarferol o raddfa a natur unrhyw newidiadau i argaeledd gofal plant Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar yn Sir Ddinbych.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

Rydym wedi cynnal cyfres o Ddigwyddiadau Comisiynu i hysbysu a chynghori darparwyr a budd-ddeiliaid eraill, ynghyd â defnyddio fforymau presennol megis y Fforwm Gofal Plant, Cyfarfod Darparwyr Gofal Plant Dechrau'n Deg a Chyfarfod Disgwyliadau Lleoliadau Addysg Gynnar.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi cadarnhau nad oes angen datganiad i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risg ariannol a gweithredol canolig i'r broses ail-gomisiynu hon, ac efallai y bydd yn cael effaith ar argaeledd lleoedd gofal plant a ariannir os na fydd digon o ddarparwyr yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid. Mae risg uchel posibl i enw da'r Cyngor pe bai'r uchod yn digwydd. Caiff y risgiau hyn eu lleihau drwy sicrhau ymgysylltiad cyson â budd-ddeiliad er mwyn ymgynghori a chyfathrebu'n effeithiol, a thrwy gynnal proses ail-gomisiynu effeithiol i ddewis a phenodi darparwyr gofal plant

addas ac i sicrhau digon o leoedd i fodloni'r gofynion. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw danwariant yng ngrant Dechrau'n Deg i'w adfer gan LIC.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 7.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi y dylai'r Pwyllgor Craffu'r Cyngor "adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor."

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Strategaeth a Datblygu: Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth

Rhif Ffôn: 01824 712225

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	13 Rhagfyr 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd/ Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Awduron yr Adroddiad:	Rheolwr Datblygu a'r Swyddog Cynllunio
Teitl:	Perfformiad ac Effeithlonrwydd Cydymffurfiaeth Cynllunio

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Pwrpas y weithdrefn cynllunio yw rheoli'r datblygiad a'r defnydd o dir er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol ("ACLLau") gael swyddogaeth cydymffurfiaeth effeithiol fel y diogelir cywirdeb y weithdrefn cynllunio rhag datblygiad a fyddai'n ei thanseilio¹. Cyflawnir hyn drwy sicrhau bod y swyddogaeth cydymffurfio wedi'i harfogi i: a) ymchwilio i doriadau honedig o amodau'n brydlon; ac yna b) fel y bo'n briodol², i ddefnyddio polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol i ddatrys effeithiau niweidiol datblygiad heb awdurdod.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg i Aelodau o sut mae swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio'r Gwasanaeth yn gweithredu, sut mae'n perfformio, sut mae'r dangosyddion perfformiad yn esblygu, a sut y gallai'r swyddogaeth cydymffurfio fodloni heriau'r dyfodol a gwella.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i Aelodau am effeithlonrwydd a pherfformiad y swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio.

3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi unrhyw sylwadau ac awgrymiadau ar hynny.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 *Sut mae'r swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio'n gweithredu*

¹ Mae Atodiad 1 yn cynnwys astudiaeth achos sy'n dangos sut gall cydymffurfiaeth cynllunio reoleiddio datblygiad er budd y cyhoedd.

² Mae'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r swyddogaeth cydymffurfio eu dilyn wedi'u nodi yng *Nghanllawiau Rheoli Datblygu* (2017) Llywodraeth Cymru, ar gael drwy <https://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/development-management-manual-without-annexes/?skip=1&lang=cy>.

- 4.1.1 Gall y broses o weithredu pwerau cydymffurfiaeth cynllunio ddefnyddio llawer o amser ac adnoddau³ sydd â photensial cyfyngedig i gynhyrchu incwm i'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth wedi gorfod gwneud arbedion cyllidebol yn flaenorol fel rhan o Broses Rhyddid a Hyblygrwydd y Cyngor, gan arwain at ostyngiad mewn swyddogion cydymffurfiaeth cynllunio. Mae'r un swyddog sy'n cwmpasu'r sir gyfan nawr yn ymdrin â thua 240 adroddiad o dor-amodau posibl o ran rheolaeth gynllunio (y cyfeirir atynt hefyd fel 'cwynion'), bob blwyddyn.⁴
- 4.1.2 Mae achosion yn cael eu **blaenoriaethu** yn dibynnu ar faint o **niwed** a achosir ac yn cael eu hidlo drwy "ffurflen gwyno" ar-lein. Yn unol â hynny, bydd amodau a dorri sy'n effeithio ar Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a choed wedi'u gwarchod yn cael y flaenoriaeth uchaf. Yn yr un modd, bydd toriadau sy'n mynd yn groes i Gynllun Corfforaethol y Cyngor fel arfer yn cael blaenoriaeth dros achosion eraill.
- 4.1.3 Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o adnoddau'n ymroddedig i ymateb i adroddiadau o dorri amodau cynllunio. Er bod hyn yn sicrhau bod pryderon achwynwyr yn cael eu trin yn effeithiol, mae'n bosibl nad yw rhai toriadau'n cael eu canfod.
- 4.1.4 Mae'r Gwasanaeth wedi creu swydd Swyddog Prosiect Cydymffurfiaeth Cynllunio'n ddiweddar. Mae'r swyddog hwn wedi'i gyflogi ar sail dros dro, rhan amser, i gynorthwyo gyda chyflawni Uwch Gynllun Canol Tref y Rhyl, drwy fynd ati i ymdrin â'r nifer uchel o dor-amodau presennol sy'n digwydd yn y dref. Mae'r materion hir-sefydlog o amddifadedd yn y Rhyl a'r ymdrechion adfywio unedig a hyrwyddwyd gan y Cyngor wedi golygu bod angen darparu'r adnodd hwn.
- 4.1.5 Gall torri amod cynllunio hefyd fod yn gyfystyr â thorri amod trwydded, rheoliadau adeiladu, deddfwriaeth tai a/neu ddeddfwriaeth ieuchyd amgylcheddol. Er enghraifft, gall adeilad diolwg – mater cynllunio – hefyd fod yn beryglus – mater rheoli adeiladu. Yn yr achosion hyn lle mae mymryn o orgyffwrdd, mae swyddogion cydymffurfiaeth cynllunio'n gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr Gwasanaeth i arwain neu gydweithredu ar ddarparu camau unioni. Os caiff ei gydlynu'n effeithiol, gan nodi canlyniadau a ddymunir yn gynnar ac argaeledd offer deddfwriaethol, mae'r dull cyfuno adnoddau hwn yn cynhyrchu canlyniadau'n fwy effeithlon. Felly rhoddir ystyriaeth i ddulliau ar draws y Gwasanaeth, pryd bynnag y rhoddir gwybod am dor-amod cynllunio.

4.2 *Sut mae'r swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio'n perfformio*

- 4.2.1 Mae Tablau 2 a 3 yn Atodiad 2 yn dangos sut mae'r swyddogaeth cydymffurfio'n perfformio ar draws nifer o ddangosyddion dros gyfnod o ddwy

³ Mae trosolwg o'r pwerau gorfodi ym mriif ymchwil Llywodraeth Cymru Y Gyfres Gynllunio: 07 – Gorfodaeth (2017), ar gael ar <http://www.assembly.wales/research%20documents/17-013%20the%20planning%20series%2007%20enforcement/17-013-web-english.pdf>.

⁴ Cyfartaledd pum mlynedd wedi'i gymryd o'r blynyddoedd 2013 yn 2017, gan gynnwys y blynyddoedd hynny.

flynedd. Mae'r data'n dangos y canlynol:

- Drwy gydol y cyfnod, mae'r cyflymder y mae'r Gwasanaeth yn ymchwilio i honiadau o dorri amodau'n dda neu'n deg yn ôl safonau cenedlaethol. Er hynny, mae canran yr achosion a ymchwiliwyd o fewn 12 wythnos wedi gostwng yn raddol dros amser. Roedd perfformiad y Gwasanaeth yn ystod chwarter cyntaf 2018 (y chwarter mwyaf diweddar y mae data ar berfformiad awdurdodau eraill ar gael), wedi'i roi yn yr 16eg safle o blith 22 awdurdod Cymru;
- Mae'r perfformiad o ran datrys achosion yn llawn, yn brydlon, yn llai da, wedi iddo ostwng yn raddol mewn chwarteri diweddar. Nid yw'r elfen hon o berfformiad yn cael ei mesur mwyach ar draws Cymru⁵;
- Cyflwynwyd 49 rhybudd gorfodi yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn yn fwy na'r hyn a gyflwynwyd gan awdurdodau cymaradwy fel Cyngor Bwrdeistref Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Cheredigion;
- O'r 49 rhybudd a gyflwynwyd, ni chydymffurfiwyd â 12. O'r 12 yma, ni ddilynwyd naw ohonynt gyda chamau gweithredu pellach i naill ai gosbi'r tramgwyddwr a/neu sicrhau bod effaith y gwaith heb ei awdurdodi'n cael ei ddatrys.⁶ Mae hyn yn cymharu'n wael ag awdurdodau eraill; ac
- O'r saith cwyn ffurfiol (drwy'r broses Cwynion Corfforaethol) a gafodd y Gwasanaeth o ran y swyddogaeth cydymffurfio, ni chynhaliwyd yr un ohonynt.

4.2.2 Er nad yw cysondeb y swyddogaeth cydymffurfio'n cael ei fesur yn feintiol, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod Aelodau wedi codi pryderon am gapasiti'r swyddogaeth i wneud penderfyniadau cyson, pan ymchwilir i dor-amodau'n bennaf, fel sy'n digwydd nawr, os cânt eu hadrodd. Mae atebion posibl i hyn a materion eraill yn cael eu harchwilio yn adran 5 o'r adroddiad hwn.

4.3 *Sut mae dangosyddion perfformiad yn esblygu*

4.3.1 17 Hydref 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ("LIC") anfon llythyr agored at brif swyddogion cynllunio'n ailadrodd y pwysigrwydd o ddefnyddio pwerau gorfodi mewn modd amserol.⁷ Yn benodol, nodwyd yn Atodiad A i'r llythyr nad yw camau gorfodi ffurfiol yn cael eu hystyried bellach fel y dewis olaf. Er mwyn annog ACLlau i fabwysiadu eu hoff ddull, mae LIC wedi diwygio sut dylai ACLlau ddehongli eu dangosyddion perfformiad - hynny yw, beth mae'n ei olygu o fod wedi ymchwilio i dor-amod, a beth mae'n ei olygu o fod wedi cymryd camau ("cadarnhaol") pellach. Nid yw datrysiad y tor-amodau'n cael ei fonitro'n llawn mwyach.

4.3.2 Cyn 17 Hydref, byddai achos wedi'i ystyried o fod wedi cael ymchwiliad pan

⁵ Gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth.

⁶ Fel arfer byddai hyn yn cynnwys y Gwasanaeth yn mynd ar drywydd erlyniad a/neu, os yw'n ymarferol, i gynnal y gwaith adfer gofynnol 'yn ddiodyn'. Dyma'r broses y mae'r Cyngor yn cynnal y gwaith sy'n ofynnol gan rybudd gorfodi ac yna'n cyflwyno pridiant tir i'r eiddo fel y gellir adennill ei gost ariannol wrth werthu'r eiddo.

⁷ Ar gael drwy <https://gov.wales/topics/planning/policy/dear-cpo-letters/timely-use-of-enforcement-powers/?skip=1&lang=cy>.

roedd swyddog wedi a) penderfynu a oedd yn hwylus cymryd rhagor o gamau gweithredu, b) wedi gweithredu'n briodol (ffurfiol neu anffurfiol) a c) wedi rhoi diweddariad i'r achwynydd. Gallai'r cam gweithredu a gymerwyd fod wedi cyfaddawdu ar gyfarwyddyd anffurfiol i ddod â'r tor-amod i ben, neu ofyn am gais cynllunio ôl-weithredol. Nawr, bydd achos ond yn cael ei ystyried yn un a ymchwiliwyd pan gyhoeddir rhybudd gorfodi, neu pan ddaw cais cynllunio dilys *i law*, nid pan ofynnir am un. O ystyried bod rhybuddion a cheisiadau'n sicr yn gallu cymryd llawer o amser – wythnosau'n aml - i'w paratoi, gallai'r diwygiadau diweddar gael goblygiadau ar berfformiad y swyddogaeth cydymffurfio.

4.4 *Sut y gallai'r swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio fodloni heriau a gwella*

4.4.1 O edrych ar adrannau 3 a 4 o'r adroddiad hwn, gellir nodi tri phrif fater, fel a ganlyn.

4.4.2 *Ymateb i ail-ddehongliad LIC o ddangosyddion perfformiad, drwy gynyddu'r cyflymder y prosesir achosion.*

4.4.2.1 Mae'r cyflymder y mae Gwasanaeth yn delio ag achosion yn dibynnu'n fawr ar:

- Adnoddau staff;
- Nifer yr achosion;
- Cymhlethdod achosion, y gellir ei waethygu drwy rwystrau ymchwilio neu'r budd-ddeiliaid dan sylw - achwynwyr sy'n mynnu'n gyson y dylid gweithredu neu dramgwyddwyr ystyfnig; ac
- Effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddir i brosesu achosion.

4.4.2.2 Mewn ymateb i ostyngiadau diweddar mewn adnoddau staff, mae'r Gwasanaeth wedi symleiddio'r prosesau trin achosion drwy ddefnyddio nifer o dulliau. Rhestrir y rhain yn Atodiad 3. Gall y Gwasanaeth nodi pedwar dull arall, nad ydyw'n golygu cynyddu adnoddau staff, y gellid cynyddu cyflymder prosesu achosion hyd yn oed yn fwy. Y rhain yw:

- Digiddeiddio gwaith achosion. Ar hyn o bryd, mae ffeiliau electronig a phapur yn cael eu creu ar gyfer bob achos, gyda'r diwethaf o'r rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer arolygiadau safle. Mae hyn yn arwain at ddyblygu gwaith y gellid ei osgoi drwy arfogi swyddogion cydymffurfiaeth â chyfrifiaduron llechen symudol a ffordd o gysylltu â data – ond gallai hyn beri cost ariannol;
- Mabwysiadu siarter cydymffurfiaeth cynllunio. Byddai'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth fanwl i fudd-ddeiliaid am sut mae'r swyddogaeth cydymffurfio'n gweithredu, ac felly i weithredu fel offeryn defnyddiol i reoli disgwyliadau'r achwynwyr a'r tramgwyddwyr⁸;
- Pwysleisio'n fwy llym ar achwynwyr i ddefnyddio ffurflen 'rhoi gwybod am dorri amodau cynllunio' (h.y. aelodau etholedig ac aelodau o'r cyhoedd).

⁸ Mabwysiadodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot siarter gorfodaeth cynllunio yn Ionawr 2018. Gellir ei gweld ar <https://www.npt.gov.uk/media/8848/nptcbc-planning-enforcement-charter-approved-26118-v2.pdf>.

Gallai'r siarter cydymffurfiaeth olygu hefyd bod swyddogion yn gallu gwrthod ymchwilio i adroddiad oni bai ei fod yn cynnwys digon o wybodaeth a thystiolaeth, e.e. lluniau, fideo ac ati. Byddai hyn yn cael gwared ar rwystrau ymchwilio ac yn debygol o leihau nifer yr adroddiadau a ddaw i law gan y Gwasanaeth; a

- Chydweithrediad cryfach gydag adrannau eraill o'r Cyngor a chynghorau cymuned, y gallai gynorthwyo gydag ymchwilio a monitro eu tor-amodau cynllunio, drwy eu wybodaeth arbenigol neu leol.

4.4.3 *Diffyg cefnogaeth gyfreithiol ac adnoddau i erlyn achosion.*

4.4.3.1 Mae Aelodau ac achwynwyr wedi mynegi pryder am ddiffyg capasiti'r Gwasanaeth i weithredu ar rybuddion gorfodi gyda rhagor o gamau cosbol. Ar hyn o bryd, mae'r dasg o lunio datganiadau a phroffion o dystiolaeth sy'n hanfodol i olrhain erlyniad yn disgyn ar swyddogion cydymffurfiaeth cynllunio. Gall y dasg hon gymryd llawer iawn o amser ac arwain at lawer o adnoddau'n cael eu dargyfeirio oddi wrth ymchwilio a datrys achosion eraill.

4.4.3.2 Gwaethygir y mater gan ddiwygiad LIC o ddangosyddion perfformiad, sydd wedi arwain at ddatrys achosion nad ydynt yn cael eu monitro'n llawn mwyach. Rhoddir llawer mwy o bwyslais nawr ar y cam ymchwilio, gan leihau'r ysgogiad i'r Gwasanaeth ddatrys achosion cydymffurfio'n llawn.

4.4.3.3 Serch hynny, mae'n bwysig bod achosion cydymffurfio'n cael eu datrys yn foddhaol er budd y cyhoedd. Ymhellach at hynny, gall erlyn cydymffurfiaeth cynllunio fod yn enillfawr iawn i awdurdodau lleol, y mae llawer ohonynt yn manteisio ar Ddeddf Enillion Troseddau 2002 ("POCA") i gael llawer iawn o arian gan droseddwr.⁹ Yn anffodus, mae'n annhebygol iawn y gallai'r Gwasanaeth yn Sir Ddinbych fynd ar drywydd camau gweithredu o dan ddarpariaethau POCA, oherwydd y diffyg mewn adnoddau staff ymroddedig yn yr adrannau Cynllunio a'r Gyfraith. Yn yr un modd, mae'r rhagolygon o gyflwyno mwy o achosion i'w herlyn yn dibynnu'n fawr ar ail-flaenoriaethu llwythi gwaith a gwell cydweithrediad rhwng Cynllunio a'r Gyfraith.

4.4.4 *Yr angen am fwy o gysondeb.*

4.4.4.1 Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd modd cynnal y math o waith monitro rhagweithiol a fyddai'n cyflawni gwelliannau sylweddol i gysondeb y swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio, ar lefel yr adnoddau presennol. Yn y cyd-destun cyfredol, mae'r swyddogaeth cydymffurfio'n gweithredu'n fwyaf effeithlon a chyson pan fo rhan-ddeiliaid lleol yn 'ein helpu ni i'w helpu nhw', drwy gymryd rôl weithredol mewn rhoi gwybod am ddatblygiadau heb awdurdod i'r Gwasanaeth. Gall Aelodau felly ddymuno ystyried sut y gallent hwy, cynghorau cymuned a sefydliadau lleol eraill, gynorthwyo'r swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio, i ddod yn fwy cyson.

4.4.4.2 Fel arall, efallai y bydd y Gwasanaeth yn gorfod ystyried ymyrraeth o dan arweiniad canllaw. Er enghraifft, rhoddir ystyriaeth i gynhyrchu canllawiau ar

⁹ Am ragor o wybodaeth gweler Huw Morris (2017), *No hiding place: Planners and the Proceeds of Crime Act*, ar gael ar <https://www.theplanner.co.uk/features/no-hiding-place-planners-and-the-proceeds-of-crime-act>.

reolaethau cynllunio a dyluniad da, y gellid eu dosbarthu wedyn i fusnesau o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Gellid gwneud y gwaith hwn mewn partneriaeth ag eraill (e.e. Cynghorau Tref), er mwyn lliniaru'r effaith ar gapasiti'r swyddogaeth cydymffurfio i drin llwythi achosion dyddiol. Nid yw'n hysbys pa mor effeithiol y gallai canllaw ychwanegol fod, yn anad dim am fod datblygiad heb awdurdod yn digwydd ar hyn o bryd er bod y Gwasanaeth wedi cynhyrchu canllaw cynllunio atodol sydd ar gael i'r cyhoedd, ar Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, dyluniad preswyl a thu blaen siopau.

4.4.4.3 Y tu hwnt i'r uchod, efallai na fyddai atebion posibl a fyddai angen adnoddau ychwanegol, yn ddichonadwy ar yr adeg hon mewn amser.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Gweler Atodiad 2, paragraff A2.3.

6 Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes angen adnoddau ychwanegol yn ystod y cam hwn. Dim effaith ar wasanaethau eraill.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Amherthnasol.

8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Dim hyd yn hyn.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i argymhellion yr adroddiad hwn

10 Pa risgiau sydd ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau'n weithredol ac wedi'u nodi yn yr adroddiad blaenorol.

11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r swyddogaeth cydymffurfiaeth cynllunio'n cael ei gweithredu'n unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a deddfwriaeth ategol arall.

Mae Erthygl 7.4.2(b) yn nodi pwerau Craffu o ran craffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas ag amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Datblygu

Ffôn: 01824 706727

Appendix 1: Case study: Remedial works carried out as a consequence of enforcement action at Higgleddy Piggledy, Abbey Road, Llangollen

A1.1 The photograph to the right was taken on the 3rd May 2018 after Llangollen Town Council raised concerns about the building with the Service. The building is a Listed Building in a prominent position within Llangollen Conservation Area. It was formerly a townhouse but has a commercial use now.

A1.2 Upon inspection it was apparent that the building had been adorned with unauthorised plastic signage and a satellite dish. It had also been badly neglected, with render and paint peeling off its walls and panes missing from its windows.

A1.3 After several months of informal negotiation, it became apparent that this approach was not going to secure remedial action. Accordingly, the Service proceeded with enforcement action on the 18th August 2018. The owner of the premises was issued with enforcement notices requiring them to carry out the following works within four months:

- (i) Remove the three signs;
- (ii) Remove the satellite dish and associated equipment; and
- (iii) Carry out the following works to the front (south) elevation of the building:
 - a. Dispose of any redundant technological apparatus and cabling;
 - b. Repair the render where blown or added and thereafter repaint the walls in a colour to match the existing;
 - c. Repair the second-floor window by replacing any broken window panes;
 - d. Repaint, in a colour to match the existing, the second-floor window sill and the first- and second-floor window frames;
 - e. Where damaged, repair and repaint, in a colour to match the existing, the bay feature to the ground and first floors; and
 - f. Repaint, in the colour black, the porch roof.



A1.4 A site inspection on the 7th November 2018 revealed that the required works had been carried out in full, as illustrated in the photograph to the right. The owner decided to sell the premises so that someone new could be responsible for its custodianship.

A1.5 So as not to unreasonably impede the reoccupation of the building as a business premises, the Service has advised the owner of the premises that new signage would be acceptable on the building so long as its design conserves or enhances the special character of the building and the surrounding Conservation Area.



Appendix 2: The performance of the planning compliance function from Q3 of 2016-17 to Q2 of 2018-19

